

RHEOLWR PROSIECT – HYFFORDDIANT NUJ CYMRU WALES

Datblygu Sgiliau Parhaus mewn Diwydiant sy'n Newid yn Gyflym 2

SWYDD WAG

CONTRACT LLAWRYDD CYFNOD PENODOL

Mae Hyfforddiant NUJ Cymru yn chwilio am reolwr prosiect profiadol, hunangyflogedig am hyd at 12 diwrnod y mis, i weithio ar brosiect datblygu sgiliau yng Nghymru. Nod y prosiect yw helpu aelodau ac unrhyw weithwyr proffesiynol yn y cyfryngau yng Nghymru i ddysgu a gwella'u sgiliau mewn diwydiant y cyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Prif amcan y prosiect yw datblygu a chyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd datblygu sgiliau trwy ddigwyddiadau â thema a gweithdai ystafell ddosbarth a anelir at weithwyr llawrydd a chyflogedig.

Bydd y Rheolwr Prosiect, a fydd yn byw yng Nghymru ac yn gweithio o gartref yn bennaf, yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni amcanion y prosiect o fewn y terfyn amser a'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys:

- cynllunio a chyflawni strategaeth y prosiect, a'i reoli'n ariannol. Cyflwyno adroddiadau naratif ac ariannol i Lywodraeth Cymru, yr NUJ a Chyngor Gweithredu Cymru'r NUJ
- datblygu a chynnal fframwaith ar gyfer Prentisiaethau Newyddiaduraeth Ddigidol
- gwybod am y diweddaraf yn nhirwedd newyddiaduraeth a chyfryngau Cymru – ac ymateb yn briodol
- datblygu a monitro amrywiaeth o seilweithiau dysgu i hwyluso datblygu sgiliau; cysylltu â hyfforddwyr llawrydd a'u rheoli
- arolygu, monitro, gwerthuso a blaenoriaethu'r ddarpariaeth hyfforddiant i sicrhau cynaliadwyedd
- cysylltu â'r Gweinyddwr/Cydllynydd Prosiect a'r gweithwyr llawrydd dan contract eraill
- sefydlu a chytuno telerau â hyfforddwyr ar gyfer gweithdai newydd e.e. effaith y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (o 25 Mai 2018 ymlaen) ar newyddiadurwyr
- meithrin partneriaethau presennol a datblygu rhai newydd ar gyfer gweithgareddau hyfforddi a digwyddiadau ar y cyd, a chysylltu â rhanddeiliaid; trefnu a chadeirio Grŵp Llywio'r prosiect
- arolygu a rheoli cynnwys gwefan Hyfforddiant NUJ Cymru Wales, sy'n hysbysu cyfranogwyr yn rheolaidd am ddatblygiadau (bydd cymorth technegol ar gael gan ddatblygwyr y wefan)
- arolygu allbwn cyfryngau cymdeithasol y prosiect
- hwyluso gweithdai a digwyddiadau hyfforddi (Caerdydd, canolbarth a gogledd Cymru ar gyfer y Sioe Deithiol Cyfryngau Cymdeithasol).
- ysgogi a hwyluso sesiynau diweddarau sgiliau a hyfforddiant ar hyfforddi a mentora, ynghyd ag adeiladu ar rwydwaith sefydledig
- ysgrifennu blogiau hyfforddi ar gyfer y wefan
- ysgrifennu cynigion am gyllid ychwanegol os bydd y cyfle'n ymgori

Sgiliau a nodweddion gofynnol:

- profiad o reoli prosiect: yn meddu ar y sgiliau i reoli holl agweddau'r prosiect a chyflawni'r amcanion o fewn y terfyn amser a'r gyllideb
- profiad dangosadwy mewn sefydlu rhaglenni hyfforddi a chyfleoedd datblygu sgiliau
- y gallu i arsylwi ar weithdai hyfforddwyr a'u gwerthuso mewn termau addysgol
- ymwybyddiaeth o'r heriau datblygu sgiliau sy'n wynebu'r sawl sy'n gweithio yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru (byddai cefndir mewn newyddiaduraeth yn ddymunol ond nid yn ofynnol)
- sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, yn cynnwys sgiliau ysgrifennu a golygu cryf, a'r gallu i gynhyrchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau ysgrifenedig at ddibenion mewnol ac allanol
- profiad o drefnu a hwyluso digwyddiadau
- y gallu i feithrin perthnasoedd gweithio cryf â holl rhanddeiliaid y prosiect, dealltwriaeth o'r heriau a wynebwr mewn hyfforddi a datblygu undebol, sefydlu diwylliant o ddysgu gydol oes, ac adnabyddiaeth o Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr NUJ
- y gallu i ymchwilio, dadansoddi a chofnodi gwybodaeth yng nghyd-destun y prosiect
- person hunan-gymhellol tra threfnus a disgybledig a all fwrw ati ar unwaith
- meddyliwr creadigol a all gyflwyno syniadau newydd a'u dilyn drwedd
- byddai cymhwyster mewn addysgu yn ddymunol ond nid yn ofynnol
- dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) – yn ddewisol
- Fel gweithiwr llawrydd yn gweithio o gartref, byddwch yn darparu ac yn cynnal eich caledwedd (gliniadur, argraffydd) eich hun sy'n addas i'r pwrpas ac â sicrwydd sy'n cydymffurfio â'r GDPR

Teitl y Contract: Rheolwr Prosiect, Hyfforddiant NUJ Cymru Wales

Teitl y Prosiect: Datblygu Sgiliau Parhaus mewn Diwydiant sy'n Newid yn Gyflym 2

Tâl: £215 y dydd (hyd at 12 diwrnod y mis) | **Hyd y Cyfnod Penodol:** Cyn gynted â phosibl tan 31 Mawrth 2020

Math o Contract: Contract cyfnod penodol llawrydd/ hunan-reoli/hunan-oruchwylio

Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) Llywodraeth Cymru ac yn unol â rheolau'r cyllid, rhaid i'r Rheolwr Prosiect fyw yng Nghymru a meddu ar yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

Os hoffech ymgeisio am y contract hwn ac mae gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol, e-bostiwch eich CV, llythyr eglurhaol a'r hysbysiad preifatrwydd GDPR wedi'i lofnodi at personnel@nuj.org.uk i gyrraedd heb fod yn ddiweddarach na hanner dydd 12/07/19. Noder na fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Rhowch y cod 'RhP CYMRU' ar eich cais.

Mae'r NUJ yn dilyn ei bolisi cyfleoedd cyfartal